

SAUNDERS, WILLIAM (1806 - 1851), bardd a llenor

Enw: William Saunders

Dyddiad geni: 1806

Dyddiad marw: 1851

Rhiant: Evan Saunders

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: bardd a llenor

Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Argraffu a Chyhoeddi

Awdur: William Roger Hughes

Ganwyd 17 Ionawr 1806 yn Gwarcwm, Llanllwni, Sir Gaerfyrddin, mab i Evan Saunders, amaethwr. Addysgwyd ef yn ysgol Castell Hywel ac ysgol ramadeg (Annibynnol) Caerfyrddin. Prentisiwyd ef yn argraffydd, a bu'n gweithio gyda Samuel Williams, Aberystwyth. Yn ystod y tymor hwnnw daeth i amlygrwydd fel bardd, ac enillodd wobrwyon yn eisteddfod Caerfyrddin ac eisteddfodau eraill ar destunau megis ' Y Gwanwyn,' ' Yr Haf,' ' Yr Hydref,' ' Y Gaeaf,' ' Y Daran,' ' Y Môr,' ac am gyfieithiadau mydryddol. O 1830 hyd ei farw bu'n gweithio yn swyddfa argraffu a chyhoeddi [William Rees](#), Llanymddyfri; ceir llawer o'i waith prydyddol a llenyddol yng nghylchgronau'r cyfnod a gyhoeddid gan [William Rees](#) - *Yr Efangelydd, Yr Haul, Y Cylchgrawn*. Golygodd gyfran o argraffiad [Rice Rees](#) o *Cannwyll y Cymry*. Y mae cyfrol lawysgrif o'i waith yn Llyfrgell Dinas Caerdydd. Bu farw 30 Mehefin 1851.

Awdur

Y Parchedig Ganon William Roger Hughes, (1898 - 1958)

Ffynonellau

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru (Aberdâr 1867-70)*, ii, 541

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20821456](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

